Evan Jones, “Ieuan Gwynedd”, 1820–52

Gweinidog (A), newyddiadurwr ac amddiffynnydd merched Cymru

“Fy arwyddair a fydd ‘Ymlaen’: fy nerth a fydd Duw; fy nod Ei ogoniant Ef, ac yna bydd fy ngwobr yn fawr iawn.”

Geiriau Evan Jones

Bu farw Ieuan Gwynedd yn ŵr ifanc 31 oed, ond yn ystod y bywyd byr hwnnw cyflawnodd lawer. Ganed ef yn nhyddyn bychan Bryn Tynoriad, y Brithdir, ger Dolgellau, ar 5 Medi 1820. Roedd yn un o chwech o blant Evan a Catherine Jones, ac ym 1824 symudodd y teulu i Tŷ Croes, y Bontnewydd, Dolgellau. Bu’n fregus iawn ei iechyd drwy gydol ei oes a dyna un o’r rhesymau pam mai ysbeidiol oedd ei gyfnodau yn ysgolion y Brithdir, Rhyd-y-main, Llanfachreth a Dolgellau. Dechreuodd weithio mewn banc yn Nolgellau gyda L Williams ond byrhoedlog fu’r yrfa honno. Yna ceisiodd gychwyn ysgolion mewn pentrefi cyfagos ond aflwyddiannus fu’r fenter oherwydd diffyg cefnogaeth. Dechreuodd bregethu ym 1838 a hynny yng nghapel Sardis, Llanwddyn. Wedi cyfnod ym Mangor ac Amwythig derbyniwyd ef i Athrofa Aberhonddu, lle y bu am bedair blynedd. Ordeiniwyd ef yn weinidog ar eglwys Annibynnol Saron, Tredegar, ym 1845, ac yno cafodd gyfnod caled.

Priododd â Catherine ym 1845, collasant blentyn y flwyddyn ganlynol ac ym 1847 bu farw ei wraig. Oherwydd afiechyd ymddiswyddodd o’i waith yn Saron ac ym 1848 symudodd i Gaerdydd er mwyn golygu *The Principality*, ond daeth hynny i ben a bu’n gweithio i *The Standard of Freedom*, The *Pathway* ac *Almanac y Cymru*. Ailbriododd ym 1848 â Rachel, pumed merch y Parch. Walter Lewis, Tredwstan. Ym 1849 aeth yn olygydd ar *Y Gymraes* a’r *Adolygydd* ond methiant ariannol fu’r cylchgrawn hwnnw.

Yr oedd Ieuan Gwynedd yn ysgrifennwr diwyd, yn gystadleuydd eisteddfodol ac yn gyfrannwr i gylchgronau. Fe'i cofir yn bennaf erbyn hyn am ei waith yn amddiffyn Cymru ac Anghydffurfiaeth Cymru yn erbyn y cyhuddiadau a wnaethpwyd yn eu herbyn gan gomisiynwyr y Llyfrau Gleision ym 1847. Gwrthwynebai hawl y llywodraeth i agor ysgolion i addysgu plant, gan ddweud mai dyletswydd yr eglwysi oedd cynnal ysgolion ac y dylid gwneud hynny'n wirfoddol. Bu dadlau brwd am hyn am gyfnod, ac roedd Ieuan Gwynedd yn un o brif ladmeryddion y Gwirfoddolwyr.

Bu hefyd yn amddiffynnydd merched Cymru. Cychwynnodd *Y Gymraes*, sef cylchgrawn i ferched, er mwyn hybu hawliau merched a dyrchafu eu statws cymdeithasol. Yn y rhifyn cyntaf gwaredai fod anghenion addysgol merched yn cael eu hanwybyddu'n llwyr a'u bod yn ddinasyddion eilradd.

Yn y cofiant i Ieuan Gwynedd gan C. Tawelfryn Thomas y mae llun, "Y Llaw yn y Llun", a ddaeth yn enwog trwy Gymru benbaladr. Pan dynnwyd y llun yr oedd mewn gwendid ac ni allai aros yn llonydd. O ganlyniad i hyn bu rhaid i'w wraig guddio y tu ôl iddo gan osod ei llaw ar ei ysgwydd i'w gynnal. Yr unig beth a welir yn y darlun yw llaw wen gynhaliol ar ei ysgwydd ac ysgrifennodd Watcyn Wyn y pennill hwn:

Y Darlun a llun y Llaw,
Anwylaf yn ei wyliaw,
Y Llaw gu a fu hyd ei fedd,
Yn gweini ar Ieuan Gwynedd.

Bu farw 23 Chwefror 1852 a'i gladdu ym mynwent capel enwog y Groes-wen, Caerffili.